

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

(MEMORANDWM RHIF 4)

Y BIL DIOGELWCH AR-LEIN

1. Cafodd y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn ei osod o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM) ac y gellir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n diwygio'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Diogelwch Ar-lein ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Mawrth 2022. Mae Llywodraeth y DU wedi ystyried y Bil sydd bellach wedi cwblhau Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin.
3. Oni nodir yn wahanol, mae'r cyfeiriadau at gymalau yn yr LCM hwn yn cyd-fynd â'r Bil fel y'i diwygiwyd ar ail ddiwrnod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin, a'i gyhoeddwyd ar 6 Rhagfyr. Gellir ei weld yn: <https://bills.parliament.uk/bills/3137>.
4. Rwy'n gosod yr LCM hwn mewn perthynas â chymalau a gafodd eu cynnwys yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, ond na chawsant eu cynnwys ym Memorandwm Rhif 2 yr LCM. Nodir rhagor o fanylion ym mharagraffau 19 i 21 isod.

Amcan(ion) Polisi

5. Amcan polisi datganedig Llywodraeth y DU yw sefydlu trefn reoleiddio newydd i fynd i'r afael â deunydd anghyfreithlon a niweidiol ar-lein, gyda'r nod o atal unigolion rhag cael eu niweidio, gan wneud y DU y lle mwyaf diogel yn y byd i fod ar-lein.
6. Ar hyn o bryd, nid yw'r rhan fwyaf o wasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr a chwilio sy'n cael eu gweithredu yn y Deyrnas Unedig yn destun unrhyw reoleiddio o ran diogelu defnyddwyr. Mae'r Bil yn gosod gofynion cyfreithiol ar:
 - a) Ddarparwyr gwasanaethau'r rhyngrwyd sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ddod ar draws deunydd sy'n cael ei gynhyrchu, ei lanlwytho neu ei rannu gan ddefnyddwyr eraill, h.y. deunydd a gynhyrchir gan ddefnyddwyr ("gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr").
 - b) Darparwyr peiriannau chwilio sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio gwefannau a chronfeydd data ("gwasanaethau chwilio").

- c) Darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd y cyhoeddir neu y dangosir deunydd pornograffig arnynt.
7. Mae'r Bil yn rhoi pwerau newydd i'r Swyddfa Gyfathrebu (Ofcom) gan eu galluogi i weithredu fel y rheoleiddiwr diogelwch ar-lein.

Crynodeb o'r Bil

8. Noddir y Bil gan yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).
9. Mae'r Bil yn cyflwyno trefn reoleiddio newydd a fydd yn gosod gofynion cyfreithiol ar ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ddod ar draws deunydd sy'n cael ei gynhyrchu, ei lanlwytho neu ei rannu gan ddefnyddwyr eraill ac ar beiriannau chwilio sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio gwefannau a chronfeydd data.

Diweddariad ar y sefyllfa o ran Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

10. Gosododd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd LCM ar 30 Mawrth, mewn perthynas â chymal 189(5) (cymal 175(5) fel y'i cyflwynwyd) a pharagraff 10 a Rhan 2 o Atodlen 1, i'r graddau y mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â Chymru.
11. Ar 28 Medi gosodais LCM atodol (Memorandwm Rhif 2) mewn perthynas â chymalau 151 – 154 a 156 (cymalau 150–153 a 155 fel y'u cyflwynwyd) o Ran 10 o'r Bil fel y'i diwygiwyd mewn Pwyllgor Bil Cyhoeddus (Troseddau Cyfathrebu).
12. Ar 8 Tachwedd gosodais LCM atodol (Memorandwm Rhif 3) mewn perthynas â Gwelliannau NC41 a gyflwynwyd (Troseddau anfon neu ddangos delweddau sy'n fflachio'n electronig: Cymru a Lloegr) ac NC13 (eithriadau o droseddau o dan adrannau 150 a 151 fel y'u cyflwynwyd).
13. Cwblhaodd y Bil Gyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin ddydd Llun, 5 Rhagfyr, a chafodd fersiwn wedi ei diweddaru o'r Bil (fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd) ei gyhoeddi ar y diwrnod canlynol.
14. Yn dilyn dadansoddiad cyfreithiol pellach o'r gwelliannau a wnaed i'r Bil hwn yn ystod y Cyfnod Adrodd, rwyf o'r farn bod angen gosod yr LCM atodol hwn gerbron Senedd Cymru, am y rhesymau a nodir ym mharagraff 19–21 isod.

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

Dileu cymal 151: trosedd gyfathrebu niweidiol

15. Ceisiwyd cydsyniad yn yr LCM (Memorandwm Rhif 2) a osodwyd ar 28 Medi mewn perthynas â chymalau 151 - 154 a 156 o Ran 10 o'r Bil fel y'i

diwygiwyd mewn Pwyllgor Bil Cyhoeddus (Troseddau Cyfathrebu).

16. Ar ail ddiwrnod y Cyfnod Adrodd, dileodd Gwelliant 239 gymal 151 (trosedd gyfathrebu niweidiol, cymal 150 fel y'i cyflwynwyd) o'r Bil.
17. Mae gwelliannau canlyniadol i rannau amrywiol o'r Bil, yn sgil hepgor cymal 151, sy'n hepgor cyfeiriadau at y cymal hwnnw.
18. O ganlyniad i ddileu cymal 151, gofynnir i Senedd Cymru nodi nad oes angen cael cydsyniad mwyach ar gyfer y cymal hwnnw.

Cymal 165 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd (cymal 158 fel y'i cyflwynwyd) ac Atodlen 14

19. Bernir hefyd y dylid ceisio cydsyniad ar gyfer cymal 165 (cymal 158 fel y'i cyflwynwyd) ac Atodlen 14.
20. Mae cymal 165 yn cyflwyno Atodlen 14, sy'n gwneud gwelliannau canlyniadol i'r cymalau a ganlyn:
 - cymal 156, trosedd gyfathrebu ffug (cymal 151 fel y'i cyflwynwyd);
 - cymal 158, trosedd gyfathrebu fygythiol (cymal 152 fel y'i cyflwynwyd);
 - cymal 163, anfon etc ffotograff neu ffilm o organau cenhedlu (cymal 156 fel y'i cyflwynwyd); a
 - cymal 160, trosedd delweddu sy'n fflachio.
21. Er bod gwasanaethau'r rhyngrwyd, gwasanaethau post, a thelegyfathrebu yn faterion cadw, mae gan Senedd Cymru'r cymhwysedd mewn perthynas â mathau eraill o gyfathrebu at ddibenion y troseddau o dan gymalau 156, 158 a 160. Felly, i'r graddau y mae cymal 165 ac Atodlen 14 yn gwneud gwelliannau canlyniadol i'r troseddau hynny, mae angen cael cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn hefyd.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Diogelwch Ar-lein

22. Mae'r darpariaethau yn y Bil, sy'n gosod dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd mewn perthynas â diogelwch ar-lein ac yn rhoi pwerau a gosod dyletswyddau ar Ofcom, yn ymwneud â mater cadw sef "gwasanaethau rhyngrwyd".
23. Mae diogelwch a lles pobl yn gyfrifoldeb ar y cyd ac yn ddyletswydd ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydnabod mai Bil ar lefel y DU yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur i reoleiddio darparwyr rhyngrwyd gyda chysondeb a fydd yn amddiffyn pobl Cymru.

Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

24. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod y darpariaethau a gafodd eu cynnwys ym Memorandwm Rhif 2 yr LCM (Rhan 10, Troseddau Cyfathrebu) yn sbarduno'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Mae'r darpariaethau yn yr LCM hwn (Memorandwm Rhif 4) yn ymwneud â'r un darpariaethau.

Goblygiadau ariannol

25. Nid oes goblygiadau ariannol i Gymru mewn perthynas â'r Bil.

Casgliadau

26. Gofynnir i'r Senedd nodi nad oes angen cael y cydsyniad a geisir yn yr LCM (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer cymal 151 (trosedd gyfathrebu niweidiol) mwyach.

27. Fy marn i yw ei bod yn briodol gosod LCM atodol, mewn perthynas â chymal 165, a Rhan 1 o Atodlen 14 i'r Bil am y rhesymau a roddir ym mharagraff 21 uchod.

28. Felly, rwy'n argymhell bod Senedd Cymru'n cefnogi'r cynnig ac yn rhoi ei chydsyniad.

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi
21 Rhagfyr 2022

Atodiad 1: Rhifau cymalau

Mae'r tabl isod yn nodi rhifau'r cymalau ar gyfer y cymalau hynny y cyfeirir atynt yn yr LCM hwn (Rhif 4).

Sylwer bod LCM (Rhif 2) yn cyfeirio at rifau cymalau o 'Fil 121 2022–23 (fel y'i diwygiwyd mewn Pwyllgor Bil Cyhoeddus ar 28 Mehefin 2022').

Rhif cymal – Bil 285 2021–22 (fel y'i cyflwynwyd) – 17 Mawrth 2022	Rhif cymal – Bil 121 2022–23 (Fel y'i diwygiwyd mewn Pwyllgor Bil Cyhoeddus – 28 Mehefin 2022	Rhif cymal – Bil 209 2022–23 (Fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd) – 6 Rhagfyr 2022
150 Trosedd Gyfathrebu Niweidiol	151 Trosedd Gyfathrebu Niweidiol	Wedi ei ddileu
151 Trosedd Gyfathrebu Ffug	152 Trosedd Gyfathrebu Ffug	156 Trosedd gyfathrebu ffug: Cymru a Lloegr
152 Trosedd Gyfathrebu Fygythiol	153 Trosedd Gyfathrebu Fygythiol	158 Trosedd Gyfathrebu Fygythiol: Cymru a Lloegr
153 Dehongli adrannau 159 i 152	154 Dehongli adrannau 151 i 153	159 Dehongli adrannau 156 i 158
155 Atebolrwydd Swyddogion Corfforaethol	156 Atebolrwydd Swyddogion Corfforaethol	162 Atebolrwydd Swyddogion Corfforaethol